Mumbles Community Council

Minutes of Meeting of the Facilities and Property Committee held on 15th July 2026. At The Ostreme Centre 6.30pm and via TEAMS

Councillors Present: Cllrs Will Thomas (Chair), Ian Scott, Carrie Townsend Jones, and Laura Gilbert.

Officers Present: Hanna Hunter – Facilities Manager and Ian Hughes – CSO

F&P 2607-01	**Welcome** The Chair, Cllr Thomas welcomed everyone to the first meeting of the newly created Facilities and Property Committee.
F&P 2607-02	**Apologies:** Cllr Richard Jarvis
F&P 2607-03	**Declarations of Interest** Cllr Thomas declared a prejudicial interest in relation to assets owned by SCC within MCC as a SCC Councillor. Cllr Thomas also declared a personal interest as a coach to the Girls Under 9's at Mumbles Rangers FC. Cllr Gilbert declared a personal interest as a committee member and player with Newton Athletic FC.
F&P 2607-04	**Elect Vice Chair for Committee** Cllr Thomas proposed Cllr Gilbert as Vice Chair of the committee. This was seconded by Cllr Scott. **RESOLVED** 'To appoint Cllr Gilbert as Vice Chair of the committee
F&P 2607-05	**Recommendations for Co-Opted Committee Members** A discussion took place on how best to progress having co-opted members on the committee, in particular whether the committee or representatives of the committee should meet up on a regular basis with local clubs such as football and rugby.

	RESOLVED To defer any decision on co-opted members or meeting with representatives from local clubs until such time as the committee has established itself.
F&P 2607-06	**Proposing dates for Future Meetings** A discussion took place on the most convenient time to hold future meeting and the frequency of the meetings, **RESOLVED:** To meet on a monthly basis on the 4th Thursday of each month at 6.30pm.
F&P 2607-07	**MCC Pavilion usage policy for current and future potential development.** The Chair, Cllr Thomas outlined how organisations will work with MCC over the future usage of The Pavillion at Underhill Park, and how this can be best progressed through initially a short-term memorandum of understanding prior to a long-term memorandum of understanding being established. Hannah explained that she is in the initial stages of preparing a short-term memorandum of understanding with Mumbles Rugby Club, with proposals being submitted between herself and the rugby club. Nothing has been finalised and it will not be contractual with the final document needing to be approved by the committee. The document will contain arrangements such as discounts and who has responsibility for preparing and selling food and drink at events such as Crackers. The proposed arrangement will apply to all users of the Pavillion and whilst the current memorandum of understanding is being prepared in relation to Mumbles Rugby Club a general document can be prepared for all users. A discussion between Councillors suggested a number of uses for the pavilion including whether clubs should have free access to facilities. Ideas to be incorporated into the memorandum of understanding. **ACTION** Hannah Hunter to prepare a Memorandum of Understanding document for committee members prior to next meeting. **RESOLVED:** To discuss the Memorandum of Understanding document at the next meeting
F&P 2607-08	**£15,000 contribution to Gate at Underhill** The Chair, Cllr Thomas outlined how this agenda item had been discussed at Full Council on 14th July 2026 when it was agreed that MCC would make a contribution of £7,500 provided SCC make a contribution of £7,500. The functioning of the gate was discussed by Councillors.

F&P 2607-09	**3G Pitch Dugouts** The Chair, Cllr Thomas outlined how the current dugouts are not suitable for matches at Underhill. During the discussion that followed it became apparent that dugouts of a certain standard are required for FAW regulations. **ACTION:** Hannah Hunter to obtain quotes on dugouts prior to next committee meeting. **RESOLVED:** To discuss quotes and now the acquisition of dugouts can be progressed at next committee meeting.
F&P 2607-10	**Asset transfer request for Bowling Green** The Chair, Cllr Thomas provided background information to MCC taking responsibility for the running of Mumbles Bowling Green and the associated buildings. There has been a delay on the asset transfer arrangement due to SCC regulations, but it is Cllr Thomas' hope that arrangements will be in place for January 2027, when a long-term lease will be in place together with a peppercorn rent. The maintenance of the green was discussed and details will be need to be finalised prior to January. In addition to the bowling green costs additional maintenance including, surrounding hedges, flower beds and shrubbery will also need to be considered. The consensus of Councillors was that when a lease is agreed it should be for a minimum of 26 years and have break-clauses in place. Legal advice will need to be obtained in relation to these issues. **ACTION:** Hannah Hunter to write to the three users of the green (Mumbles Croquet Club and the two bowling clubs) requesting that future bowling green maintenance be arranged. **RESOLVED:** For Cllr Thomas to update the committee at a future meeting, following liaison with SCC.

Meeting finished 6.58pm

Next Meeting 24th September 2026

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyfleusterau ac Eiddo a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2026 yng Nghanolfan Ostreme am 6.30pm a thrwy gyfrwng Microsoft TEAMS

Cynghorwyr yn bresennol: Y cynghorwyr Will Thomas (Cadeirydd), Ian Scott, Carrie Townsend Jones, a Laura Gilbert.

Swyddogion yn bresennol: Hanna Hunter – Rheolwr Cyfleusterau, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

F&P 2607-01	**Croeso** Croesawodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, bawb i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyfleusterau ac Eiddo newydd ei greu.
F&P 2607-02	**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Richard Jarvis
F&P 2607-03	**Datganiadau o fuddiant** Cafwyd datganiad o fuddiant rhagfarnus gan y Cynghorydd Thomas mewn perthynas ag asedau sy'n eiddo i Gyngor Dinas a Sir Abertawe o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls, yn rhinwedd ei swydd fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Cafwyd datganiad o fuddiant personol hefyd gan y Cynghorydd Thomas, yn rhinwedd ei swydd fel hyfforddwr i'r merched dan 9 oed yng Nghlwb Pêl-droed Mumbles Rangers. Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Gilbert yn rhinwedd y ffaith ei bod yn aelod o'r pwyllgor ac yn chwaraewr gyda Chlwb Pêl-droed Newton Athletic.
F&P 2607-04	**Ethol is-gadeirydd y pwyllgor** Cynigiwyd ethol y Cynghorydd Gilbert yn is-gadeirydd y pwyllgor gan y Cynghorydd Thomas; eiliwyd gan y Cynghorydd Scott. **PENDERFYNWYD:** Penodi'r Cynghorydd Gilbert yn is-gadeirydd y pwyllgor.

F&P 2607-05	**Argymhellion ar gyfer aelodau cyfetholedig y pwyllgor** Cafwyd trafodaeth ar y ffordd orau o fwrw ymlaen â chael aelodau cyfetholedig ar y pwyllgor; yn benodol, a ddylai'r pwyllgor neu gynrychiolwyr y pwyllgor gyfarfod yn rheolaidd â chlybiau lleol megis pêl-droed a rygbi. **PENDERFYNWYD:** Gohirio unrhyw benderfyniad ynghylch aelodau cyfetholedig neu gyfarfod â chynrychiolwyr o glybiau lleol nes bod y pwyllgor wedi ymsefydlu.
F&P 2607-06	**Cynnig dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol** Cafwyd trafodaeth ynghylch yr amser mwyaf cyfleus i gynnal cyfarfodydd yn y dyfodol, a pha mor aml y dylid cynnal y cyfarfodydd. **PENDERFYNWYD:** Cyfarfod yn fisol, ar y pedwerydd nos lau o bob mis am 6.30pm.
F&P 2607-07	**Polisi Cyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer defnyddio'r Pafiliwn ar gyfer datblygiad presennol a datblygiad posibl yn y dyfodol** Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, sut y byddai sefydliadau yn gweithio gyda Chyngor Cymuned y Mwmbwls ynghylch defnyddio'r Pafiliwn ym Mharc Underhill yn y dyfodol, a sut y gellid datblygu hyn orau trwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth tymor byr, i gychwyn, cyn sefydlu memorandwm cyd-ddealltwriaeth tymor hir. Esboniodd Hannah ei bod hi wedi cychwyn paratoi memorandwm cyd-ddealltwriaeth tymor byr gyda Chlwb Rygbi'r Mwmbwls, gyda chynigion yn cael eu cyflwyno rhyngddi hi a'r clwb rygbi. Nid oedd dim wedi ei benderfynu yn derfynol, ac ni fyddai'n gytundebol gan y byddai angen i'r ddogfen derfynol gael ei chymeradwyo gan y pwyllgor. Byddai'r ddogfen yn cynnwys trefniadau fel gostyngiadau a phwy sydd â chyfrifoldeb am baratoi a gwerthu bwyd a diod mewn digwyddiadau megis 'Crackers'. Byddai'r trefniant arfaethedig yn berthnasol i holl ddefnyddwyr y Pafiliwn ac, wrth i'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth presennol gael ei baratoi mewn perthynas â Chlwb Rygbi'r Mwmbwls, gellid paratoi dogfen gyffredinol ar gyfer pob defnyddiwr. Awgrymodd y drafodaeth rhwng y cynghorwyr nifer o ddefnyddiau ar gyfer y Pafiliwn, yn cynnwys a ddylai clybiau gael mynediad am ddim i'r cyfleusterau. Syniadau i'w hymgorffori yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth. **CAM GWEITHREDU:** Hannah Hunter i baratoi dogfen memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar gyfer aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf. **PENDERFYNWYD:** Trafod y ddogfen memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn y cyfarfod nesaf.

F&P 2607-08	**Cyfraniad o £15,000 ar gyfer y glwyd yn Underhill** Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, sut y trafodwyd yr eitem ar yr agenda yng nghyfarfod y cyngor llawn ar 14 Gorffennaf 2026 pan gytunwyd y byddai Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn gwneud cyfraniad o £7,500 ar yr amod bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gwneud cyfraniad o £7,500. Bu'r cynghorwyr yn trafod swyddogaeth y glwyd.
F&P 2607-09	**Llochesi cae chwarae 3G** Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, sut yr oedd y llochesi presennol yn anaddas ar gyfer gemau yn Underhill. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, daeth yn amlwg bod angen llochesi o safon benodol ar gyfer rheoliadau Cymdeithas Bêl-droed Cymru. **CAM GWEITHREDU:** Hannah Hunter i gael dyfynbrisiau ar gyfer llochesi cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor. **PENDERFYNWYD:** Trafod dyfynbrisiau, a nawr gellid bwrw ymlaen â chaffael llochesi yn y cyfarfod pwyllgor nesaf.
F&P 2607-10	**Cais trosglwyddo asedau ar gyfer y lawnt fowlio** Rhoddodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, yr wybodaeth gefndirol o ran Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cymryd cyfrifoldeb am redeg lawnt fowlio'r Mwmbwls a'r adeiladau cysylltiedig. Bu oedi ar y trefniant trosglwyddo asedau oherwydd rheoliadau Cyngor Dinas a Sir Abertawe, ond gobaith y Cynghorydd Thomas oedd y byddai trefniadau ar waith ar gyfer mis Ionawr 2027, pan fyddai prydles hirdymor ar waith ynghyd â rhent hedyn pupur. Trafodwyd cynnal a chadw'r lawnt, a nodwyd y byddai angen cwblhau'r manylion cyn mis Ionawr. Yn ogystal â chostau'r lawnt fowlio, byddai angen ystyried costau ychwanegol o ran cynnal a chadw, yn cynnwys y perthi, y gwelyau blodau, a'r llwyni cyfagos hefyd. Y farn gyffredin ymhlith y cynghorwyr oedd y dylai prydles fod am o leiaf 26 mlynedd, a chynnwys cymalau terfynu ar waith pan gâi ei chytuno. Byddai angen cael cyngor cyfreithiol mewn perthynas â'r materion hyn.

	CAM GWEITHREDU: Hannah Hunter i ysgrifennu at y tri chlwb sy'n defnyddio'r lawnt (Clwb Croquet y Mwmbwls a'r ddau glwb bowlio) yn gofyn am drefnu gwaith cynnal a chadw'r lawnt bowlio yn y dyfodol. **PENDERFYNWYD:** Bod y Cynghorydd Thomas yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol, yn dilyn cysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.58pm

Cyfarfod nesaf: 24 Medi 2026